**Cofnodion Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf**

**1 Mawrth 2024**

0900 – 1400

Lleoliad: Llys Cadwyn, ac ar-lein

**Yn bresennol**

James Price (Cadeirydd), Heather Clash, Jan Chaudhry Van der Velde, Marie Daly, Alexia Course a Peter Strachan.

**Hefyd yn bresennol**

Julian Edwards (Cyfarwyddwr Anweithredol Cysylltiol) a Jeremy Morgan (Ysgrifennydd).

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Dim.

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**

Gan fod cworwm yn bresennol, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan Buddiant**

Dywedodd Julian Edwards mai ef yw'r rheolwr gyfarwyddwr dros dro yn Cross Country Trains Ltd. Peter Strachan yw Cyfarwyddwr Merseyrail Electrics 2002 Ltd. Mae'r ddau wedi cytuno ar gynlluniau lliniaru.

**2. Sylw i ddiogelwch.**

Cynhaliwyd Ymarfer Cluedo ddiwedd mis Ionawr. Roedd yn ymarfer pen bwrdd poblogaidd ar y cyd â Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, Network Rail, Amey Infrastructure Wales, Silurian Security a Rheoli Torfeydd Sword. Y nod oedd profi'r prosesau cyfathrebu, gwneud penderfyniadau a chysylltu â gwasanaethau Trefn Reoli Aur / Brys yn ystod digwyddiad mawr.

Gofynnodd y Bwrdd am yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwersi a ddysgwyd o fomio Arena Manceinion **[Leyton Powell i weithredu]**.

**3. Sylw i Gwsmeriaid**

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am dwyll tocynnau, a'r gwaith sy'n cael ei wneud o ran sganio ac annog ymddygiad gwell.

**4. Cofnodion a Chamau Gweithredu**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2024 fel cofnod cywir. Nodwyd a diweddarwyd y Log Camau Gweithredu. Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am statws presennol sawl eitem sy'n aros am gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.

**5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau**

Derbyniodd a nododd y Bwrdd drosolwg o adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y materion canlynol:

- Roedd y perfformiad cyffredinol yng Nghyfnod 11 y Rheilffyrdd yn gadarnhaol. Fodd bynnag, mae lle i wella ac mae argaeledd cerbydau rheilffyrdd yn parhau i fod yn brif fan dan bwysau. Nododd y Bwrdd fod y sefyllfa o ran cerbydau wedi gwaethygu oherwydd y gostyngiad yn y ddarpariaeth Class197. Bydd y fflyd Class 150 cyntaf i gyrraedd cyfnodoldeb C6 yn dod oddi ar y brydles yn ystod mis Mawrth, a does dim posib cael estyniad. Cafwyd problemau gyda'r Class 231 hefyd, a chytunwyd y byddai JP a JC yn trafod hyn.
- Mae rhaglen ailgyflenwi fflyd Class 175 wedi cael ei heffeithio ar ôl sawl storm, gan achosi i ddŵr fynd i mewn i unedau sy'n barod i gael eu tynnu oddi ar y brydles, ac achosi oedi pellach i raglen trwsio bogïau Alstom. Mae cynllun adfer wedi cael ei ffurfioli.
- Roedd un SPAD yn ystod Cyfnod 11 y Rheilffyrdd, a oedd yn gamgymeriad gyrwyr risg isel.
- Mae'r gwaith o gynllunio digwyddiadau mawr, yn enwedig ar gyfer y gemau rygbi diweddar, wedi gwella'n barhaus. Mae cynllun wedi cael ei rannu â Chymdeithas Bêl-droed Cymru ar gyfer y gemau rhyngwladol ddiwedd mis Mawrth. Nodwyd bod digwyddiadau min nos yn fwy anodd cynllunio ar eu cyfer na digwyddiadau yn ystod y dydd.
- Mae'r cynlluniau ar gyfer turn Caergybi wedi cael eu hailgyflwyno i Bwyllgor Buddsoddi TrC, gyda'r bwriad o ddod o hyd i ddatrysiad cyflymach. [redacted]
- Mae'r gwaith o adnewyddu depo arlwyo Casnewydd, gan gynnwys y "gegin baratoi" newydd ar gyfer gwasanaeth bwyty MkIV, wedi dod i ben wrth i brosiectau gorsafoedd ddatrys anghydfod gyda'r contractwr. Nid oes unrhyw waith wedi cael ei wneud ar y safle ers 25 Tachwedd 2023.

[redacted]

**5.1 Adroddiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol Strategol**

Nododd y Bwrdd yr adroddiad.

**5.2 Adroddiad Sicrhau Diogelwch**

Nododd y Bwrdd yr adroddiad.

**6. Dangosfwrdd Risg Rheilffyrdd**

Derbyniodd a nododd y Bwrdd drosolwg o'r dangosfwrdd risg.

### 7. Adolygiad ariannol

*Ymunodd Stephanie Raymond â'r cyfarfod.*

[redacted]

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa debygol ar ddiwedd y flwyddyn, a nododd fod y sefyllfa o ran gwariant cyfalaf yn cael ei hasesu'n barhaus er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl o'r amlen gyllido sydd ar gael.

### 8. Rhagdybiaethau'r gyllideb

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am ragdybiaethau'r gyllideb ar gyfer 2024/25, gan gynnwys refeniw teithwyr. [redacted]

Nododd y Bwrdd ragdybiaethau allweddol ar gyfer cyllideb 2024/25, gan gynnwys amserlenni a seilwaith, pontio cerbydau, costau staff, fforddiadwyedd rheilffyrdd, newidiadau i seilwaith a gwasanaethau bws yn lle trenau.

*Gadawodd Stephanie Raymond y cyfarfod.*

### 9. Diweddariad masnachol

Mae ffocws ar hyn o bryd ar reoli refeniw a sicrhau'r cynnyrch mwyaf posibl, darpariaeth gatiau ac atal twyll yn ymwneud â thocynnau.

Roedd 3,000 a mwy o ddefnyddwyr yn defnyddio'r gwasanaeth talu wrth fynd rhwng Caerdydd a Chasnewydd, a rhoddwyd adborth da gan gwsmeriaid yn gyffredinol. Mae'r adborth hwn wedi cael ei ddefnyddio i ddatrys llawer o fân broblemau. Bydd y cynllun nesaf yn cael ei gyflwyno ar reilffordd Glynebwy ddiwedd mis Mawrth.

[redacted]

### 10. Dangosfwrdd risg rheilffyrdd

Nododd y Bwrdd y dangosfwrdd risg rheilffyrdd wedi'i ailgynllunio, a gwell aliniad â thrafodaethau'r Bwrdd.

### 11. Rhagolygon Perfformiad ar gyfer 2024/25

*Ymunodd Colin Lea â'r cyfarfod.*

Nododd y Bwrdd adolygiad blynyddol o fetrigau perfformiad. Mae trafodaethau pellach i fod i gael eu cynnal, ond cymeradwyodd y Bwrdd y cynnig i gynnal ail ragolygon ym mis Mehefin a mis Medi 2024 i wella cywirdeb targedau er mwyn helpu i sicrhau bod targedau'n ymestyn, ond nid yn amhosibl eu cyrraedd. Trafododd y Bwrdd ddylanwad Network Rail ar osod a chyflawni targedau, a chytunodd i wahodd Rob Kearns i gyfarfod yn y dyfodol **[Jan Chaudhry Van der Velde i weithredu].**

*Ymunodd Colin Lea â'r cyfarfod.*

**Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a daeth y cyfarfod i ben.**